OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3098 (Cy.282)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud	- -	*21 Tachwedd 2006*
Yn dod i rym	- -	*23 Tachwedd 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar âl iddo ymgynghori, yn unol ag adran 3(7) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(**1**), â'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol ac â chynrychiolyddion ysgolion sy'n darparu lleoedd a gynorthwyir o dan adran 2(1) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn o dan y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 3(1), (3), (4), (5) a (9) o'r Ddeddf honno(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 23 Tachwedd 2006.

(2) Mae Rheoliad 3 yn gymwys o ran Cymru mewn perthynas â chwestiwn perthnasol.

(3) Ym mharagraff 2 uchod, ystyr "cwestiwn perthnasol" yw cwestiwn o dan Reoliadau Addysg (Mân Dreuliau) 1997(**3**) parthed a oes gan rieni disgybl a gynorthwyir hawl i grant gwisg ysgol o dan Ran II, neu i grant teithio o dan Ran III, o'r Rheoliadau hyn ac—

(a) sy'n codi ynglŷn â blwyddyn ysgol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2006; a

(b) nas penderfynwyd ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2005

2. Ar ddiwedd paragraff (3) o reoliad 1 o Reoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2005(**4**), mewnosoder "cyhyd ag nad yw'r cwestiwn yn un y cyfeirir

(**1**) 1997 p. 59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).

(**2**) Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 bellach yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru: gweler Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a'r cofnod o ran Deddf Addysg (Ysgolion) 1997 yn Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1997/1969. Offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1998/1585, O.S. 1999/1505, O.S. 2000/1939 (Cy. 137), O.S. 2001/2708 (Cy. 227), O.S. 2002/1880 (Cy. 189), O.S. 2003/1779 (Cy.193), O.S. 2004/1807 (Cy.195) ac O.S. 2005/2837 (Cy. 201).

(**4**) O.S. 2005/2837 (Cy. 201).